# Awdur Manyleb CBAC Lefel 2 Cynaliadwyedd yn Ymarferol: Ysgogwyr Newid y Dyfodol

Rydym am ehangu ein tîm o awduron arloesol sy'n gallu cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cymhwyster Lefel 2 Cynaliadwyedd yn Ymarferol. Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o gyfres CBAC o gymwysterau Cynaliadwyedd sydd wedi'i datblygu ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Cwricwlwm i Gymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae **CBAC Lefel 2 Cynaliadwyedd yn Ymarferol: Ysgogwyr Newid y Dyfodol:**

- yn gymhwyster seiliedig ar brojectau, sydd wedi'i lunio i feithrin gwybodaeth dysgwyr am gynaliadwyedd
- yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau rheoli projectau, rheoli newid a chynllunio
- yn galluogi dysgwyr i weithredu yn eu lleoliadau, gan ganolbwyntio ar gymhwyso egwyddorion ac arferion cynaliadwyedd
- yn gofyn i ddysgwyr adfyfyrio ar y canlyniadau ac effaith eu project drwyddi draw.

Os hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol i gyfrannu at ddatblygu'r cymhwyster hwn i Gymru, gwnewch gais nawr.

**Cyfrifoldebau Awduron cymwysterau**

Mae awduron cymwysterau yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu ein cymwysterau. Yn y rôl hon, bydd disgwyl i chi wneud rhai neu bob un o’r canlynol:

- ysgrifennu cynnwys manyleb sydd wedi'i neilltuo i chi
- llunio canllawiau cyflwyno / deunyddiau asesu ar gyfer unedau sydd wedi'u neilltuo i chi
- mynychu cyfarfodydd cynghori ar ddatblygu a chyfrannu at y cyfarfodydd hynny, adolygu deunyddiau yn unol ag adborth a dderbynnir.

**Y profiad sydd ei angen**

- profiad addysgu a/neu brofiad proffesiynol perthnasol
- gwybodaeth a dealltwriaeth o asesu seiliedig ar sgiliau
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da
- y gallu i ddefnyddio TGCh yn hyderus
- y gallu i ddysgu sgiliau newydd yn gyflym a'u cymhwyso
- y gallu i weithio i derfynau amser tynn
- y gallu i ysgrifennu'n glir ac yn gryno.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â rachel.dodge@cbac.co.uk. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 5 Gorffennaf 2024.

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, ewch i https://appointees.wjec.co.uk/ a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Datblygwr Manylebau** ar gyfer **Cynaliadwyedd, Lefel 2 (CBAC)** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais. Mae'n bwysig diweddaru'r Datganiad Cefnogi ar y cais.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@cbac.co.uk<br>02920 265 050 | neu | Emily Safadi<br>emily.safadi@cbac.co.uk<br>02920 265 305 |